

# Mwy na geiriau:
## Straeon Bywyd Go Iawn

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
   Panagiota Karyou, Bioleg.

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
   Un o Gyprus ydw i ond dwi hefyd yn hanner Rwmanaidd felly dwi'n siarad Groeg ac ychydig o Rwmaneg hefyd. Dwi'n gallu siarad Saesneg hefyd. Ar fy mhen fy hun a thrwy ffrindiau, dwi wrthi'n dysgu ychydig o Japanaeg. Fe wnes i gwrs Sbaeneg yn y brifysgol.

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
   Pan o'n i'n ifanc iawn. Gan fy mod i'n ddwyieithog, ro'n i'n gallu cyfathrebu efo mwy o bobl o wledydd eraill felly roedd yn ddefnyddiol iawn ac yn ddiddorol iawn.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
   Mae o wedi fy helpu i wneud llawer o ffrindiau a chreu cysylltiadau gan fy mod yn gallu eu deall nhw a'u diwylliant yn well.

5. **Sut mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?**
   Dwi eisiau teithio dros y byd i gyd, felly dwi'n meddwl bydd cael ieithoedd yn bwysig iawn i fy ngyrfa.

6. **Beth wyt ti'n gobeithio ei wneud fel gyrfa/gyrfaoedd yn y dyfodol?**
   Gwyddoniaeth fforensig neu labordy.

www.mflmentoring.co.uk
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

7. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
   Gallu cyfathrebu efo cymaint o wahanol bobl a'u deall nhw gymaint yn well.

8. **Beth fu'r fantais fwyaf annisgwyl o ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Dwi wedi dysgu bod rhai pobl yn eich trin yn well pan fyddwch yn deall ychydig o'u hiaith ac yn gwybod ychydig am eu diwylliant.

9. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Ceisio astudio mwy o ieithoedd a gorffen fy ngwaith prifysgol ar yr un pryd.

10. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**
    *Ai* sy'n golygu cariad mewn Japanaeg.

11. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill?**
    Hoffwn i petawn i'n gallu siarad Arabeg ac iaith Corea.

12. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
    Mae wedi fy helpu i ddeall ystyr ieithoedd ac mae hefyd wedi fy helpu i ysbrydoli plant ifanc a dangos iddyn nhw fy angerdd tuag at ieithoedd.

13. **Oes unrhyw berson neu unrhyw eiliad neu unrhyw beth penodol wedi dy ysbrydoli di ar dy daith i ddysgu iaith?**
    Gallu deall ffilmiau yn yr iaith wreiddiol heb orfod darllen is-deitlau.

14. **Oes gen ti straeon doniol i'w rhannu am dy brofiadau dysgu iaith?**
    Pan ddechreuais i ddysgu Japanaeg gyntaf, ro'n i'n gwneud llwyth o gamgymeriadau felly

ro’n i'n drysu pobl o hyd wrth drio dweud pethau.

15. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**
    Ddylech chi ddim bod ofn dysgu iaith newydd na cheisio ei siarad efo rhywun arall – bydd pobl yn gwerthfawrogi eich ymdrechion a bydd hefyd yn eich helpu i wella.

